OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 398 (Cy.48)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

DIWYDIANNAU DA BYW

## Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *25 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 10 o Ddeddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 1984(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) (Diwygio) 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru, ac yn dod i rym ar 18 Mawrth 2013.

### Diwygiadau i Reoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008

**2.** Diwygir Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008(**2**) yn unol â'r Rheoliadau canlynol.

### Dehongli

**3.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2, ar ôl y diffiniad o "mangre sydd heb ei thrwyddedu" mewnosoder—

"ystyr "mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu" ("*unlicensed processing premises*") yw mangre sydd heb ei thrwyddedu—

(a) ar gyfer prosesu semen—

(i) a gasglwyd mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu neu ganolfan gasglu ddomestig, a

(**1**) 1984 p. 40; diwygiwyd adran 10 gan Ddeddf Cyfraith Statud (Diddymiadau) 1993 (p.50) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 (p.44). Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd o dan y Ddeddf i'r "appropriate Minister", i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, erthygl 2, Atodlen 1, (O.S. 1999/672), ac y maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**2**) O.S. 2008/1040 (Cy. 110).

(ii) nas bwriedir ar gyfer y fasnach ryng-Gymunedol, a

(b) a oruchwylir gan filfeddyg canolfan o ganolfan gasglu CE;".

**Cymeradwyo anifeiliaid buchol i'w defnyddio mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu**

**4.**—(1) Ym mharagraff (1) o reoliad 10, hepgorer ", neu ei ddefnyddio fel anifail ymlid,".

(2) Ym mharagraff (4) o reoliad 10, hepgorer "neu'r anifail ymlid a ddefnyddiwyd i gasglu'r semen hwnnw".

**Dyletswyddau penodol milfeddygon canolfannau a gweithredwyr mangreoedd sydd heb eu trwyddedu**

**5.** Yn rheoliad 16, ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(1A) Rhaid i ddyletswyddau milfeddyg canolfan mewn canolfan gasglu CE, a bennir ym mharagraff (1B), gael eu cyflawni hefyd, gan y milfeddyg hwnnw, pan fo'n goruchwylio mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu.

(1B) Y dyletswyddau yw'r rhai a bennir yn y darpariaethau canlynol o Ran 3 o Atodlen 3—

(a) is-baragraffau (ch), (d) ac (dd) o baragraff 1; a

(b) is-baragraff (b) o baragraff (2).".

**Defnyddio anifeiliaid ymlid**

**6.** Yn lle rheoliad 21 rhodder—

"**Defnyddio anifeiliaid ymlid**

**21.**—(1) Ni chaiff neb ddefnyddio anifail ymlid i gynorthwyo gyda chasglu semen oni fydd yr anifail hwnnw wedi ei gymeradwyo at y diben hwnnw gan Weinidogion Cymru.

(2) Ond ni fydd cymeradwyaeth o'r fath yn ofynnol ar gyfer anifail ymlid a ddefnyddir i gynorthwyo gyda chasglu semen mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu.".

**Prosesu semen**

**7.** Yn rheoliad 24, yn lle paragraffau (a) a (b) rhodder—

"(a) mewn canolfan gasglu CE;

(b) mewn canolfan gasglu ddomestig; neu

(c) mewn mangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu.".

**Cyflenwi semen rhewedig**

**8.** Yn rheoliad 28, ym mharagraff (2), yn lle "yw wedi ei storio" rhodder "oedd y semen rhewedig wedi ei storio yn flaenorol".

**Y mesurau sy'n gymwys i ganolfannau casglu CE**

**9.** Yn Atodlen 3, ym mharagraff 2 o Ran 1, yn lle "dogn" rhodder "casgliad".

**Y mesurau sy'n gymwys i ganolfan gasglu ddomestig**

**10.** Yn Atodlen 5, ym mharagraff 2 o Ran 1, yn lle “dogn” rhodder “casgliad”.

**Dyletswyddau gweithredwyr mangreoedd sydd heb eu trwyddedu**

**11.** Yn Atodlen 7—

(a) ym mharagraff 1(c), yn lle “neu ganolfan gasglu ddomestig i'w brosesu” rhodder “, i ganolfan gasglu ddomestig neu i fangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu i'w brosesu”;

(b) yn lle paragraff 1(c)(ii) rhodder—

“(ii) pan symudir y semen i ganolfan gasglu CE, bod y profion a bennir ym mharagraff 1(1) o Ran 2 o Atodlen 3 wedi eu cynnal ar yr anifail buchol a bod y canlyniadau'n negyddol;

(iia) pan symudir y semen i ganolfan gasglu ddomestig neu i fangre brosesu sydd heb ei thrwyddedu, bod y profion a bennir ym mharagraff 2 o Ran 2 o Atodlen 8 wedi eu cynnal ar yr anifail buchol a bod y canlyniadau'n negyddol;”; ac

(c) ym mharagraff 2(2), yn lle “i filfeddyg canolfan y ganolfan gasglu y mae semen yr anifail buchol yn cael ei symud” rhodder “i'r milfeddyg canolfan sy'n goruchwylio'r ganolfan neu'r fangre y symudir semen yr anifail buchol”.

*John Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o Weinidogion Cymru

21 Chwefror 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Semen Buchol (Cymru) 2008 (O.S. 2008/1040) (Cy. 110) ("Rheoliadau 2008") sy'n rheoli gwaith casglu, prosesu a storio semen buchol. Mae Rheoliadau 2008 yn sefydlu dwy drefn: mae un drefn yn caniatáu i semen gael ei gasglu a'i brosesu ar gyfer ei fasnachu ag Aelod-wladwriaethau eraill o'r UE, ac y mae'r drefn arall yn caniatáu casglu semen i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Mae Rheoliadau 2008 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 88/407/EEC sy'n gosod y gofynion ynglŷn ag iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i'r fasnach ryng-Gymunedol mewn semen anifeiliaid domestig o'r rhywogaethau buchol ac i fewnforion o'r semen hwnnw (OJ Rhif L 194, 22.7.1988, t.10), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/73/EC (OJ Rhif L 219, 14.8.2008, t.40).

Yn benodol, mae rheoliadau 4 a 6 yn darparu nad oes angen cymeradwyaeth ar gyfer defnyddio buchod ymlid mewn canolfannau casglu semen sydd heb eu trwyddedu.

Mae rheoliadau 3, 5, 7 ac 11 (sydd, yn eu trefn, yn diwygio rheoliadau 2, 16, 24 o Reoliadau 2008 ac Atodlen 7 i'r Rheoliadau hynny) yn ymwneud â mangreoedd prosesu sydd heb eu trwyddedu, lle y caniateir prosesu semen, a gasglwyd naill ai mewn mangre sydd heb ei thrwyddedu neu ganolfan gasglu ddomestig, ac nas bwriedir ar gyfer y fasnach ryng-Gymunedol, yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan filfeddyg canolfan gasglu CE.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, oherwydd na ragwelir unrhyw effaith ar y sectorau preifat, gwirfoddol na chyhoeddus.